

Polisi ac Arweiniad ar Bresenoldeb

Awdur	Linda Perkins
Ymgynghoreion	Uwch Dîm Rheoli
Pasiwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli (Dyddiad)	22 Mai 2018
Cyhoeddwyd (Dyddiad)	13 Gorffennaf 2018
Adolygiad Nesaf (Dyddiad)	Gorffennaf 2020



A greener place
Man gwyrddach



Cynnwys

1.0	Y Cyd-destun Polisi	3
1.1	Y Cyd-destun Cenedlaethol.....	3
1.2	Y Cyd-destun Lleol	4
1.3	Y Cyd-destun Cyfreithiol.....	5
2.0	Nodau.....	5
3.0	Egwyddorion.....	6
4.0	Proses a gweithredu.....	6
5.0	Cysylltiadau â Strategaethau Eraill.....	6
6.0	Partneriaeth.....	7
7.0	Gwranddo ar Ddysgwyr	7
8.0	Monitro, Gwerthuso ac Adolygu	7
9.0	Hysbysiadau Preifatrwydd	8
	Atodiad 1 – Dolenni i Ddogfennau Llywodraeth Cymru	9

1.0 Y Cyd-destun Polisi

Mae presenoldeb rheolaidd yn rhagofyniad i addysg dda, felly rhaid i ysgolion, darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol, llywodraethwyr, yr Awdurdod Lleol (ALI), rhieni a gofawyr, plant a phobl ifanc, roi blaenoriaeth uchel i'w sicrhau. Trwy beidio â mynychu'r ysgol neu ddarpariaeth ddynodedig yn rheolaidd, mae disgyblion yn lleihau gwerth yr addysg a ddarperir ar eu cyfer.

Gellir ond hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn llwyddiannus pan fydd yr ysgol gyfan/y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gyfan, y staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu, yn barod i atgyfnerthu pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Cyfeiriwch at y ddogfen Canllaw Arfer Da o ran Presenoldeb ar gyfer Ysgolion.

Mae polisi presenoldeb yn un sy'n gofyn am ymroddiad gan bob un o'r staff a gyflogir yn yr ysgol/y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, ynghyd â llywodraethwyr, rhieni a gofawyr, disgyblion a'r gymuned y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddi.

1.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae presenoldeb yng nghyd-destun y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn allweddol i fater gwella ysgol gyfan ac fe gaiff ddylanwad uniongyrchol ar gyrhaeddiad a safonau. Mae'r fframwaith yn disgrifio'r nodweddion allweddol sydd eu hangen i adeiladu ar arfer da presennol a thrwy gydweithio, gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc ledled Cymru.

- 1.1.1 Mae dogfen Canllawiau Llywodraeth Cymru, *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 2016*, yn darparu cyngor ac arweiniad ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer cynnal lefelau uchel o bresenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a lles pob disgybl.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/inclusion/pupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy>

- 1.1.2 Mae *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan* yn darparu pecyn cymorth ar safonau ac arweiniad arfer ar gyfer ymarferwyr y Gwasanaeth Lles Addysg. Nod y ddogfen allweddol hon yw sicrhau cysondeb gwell o ran arfer ledled Cymru, ac mae'r pecyn cymorth yn ddefnyddiol gan ei fod yn cynnwys adran ar gyfer ysgolion sy'n cynnwys enghreifftiau o strategaethau y gellir eu defnyddio i wella presenoldeb mewn ysgolion a rheoli diffyg prydlondeb. Mae fersiwn electronig o'r ddogfen ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110308section3cy.pdf>

1.2 Y Cyd-destun Lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) wedi ymrwymo i roi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith trwy ddatblygu a gweithredu polisiau a dogfennau arweiniad sydd wedi'u hanelu at wella lefelau presenoldeb a lles ar gyfer ysgolion; darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, disgyblion, rhieni a gofalwyr, er mwyn gwella safonau a chyrhaeddiad addysgol.

1.2.1 Mae'r polisi'n cefnogi amcanion lles y cyngor, y Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant, y Strategaeth Cynhwysiant a'r Cynllun Gwella Addysg.

1.2.2 Mae'r polisi'n cyfrannu at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 ac wedi cael ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan y cyfreithiau a'r arweiniad a ddarperir gan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Plant 1989 a 2004, Cod Ymarfer AAA Cymru 2004, Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000, ynghyd â'r statudau a'r dogfennau allweddol cysylltiedig canlynol:

- Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan;
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008;
- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013;
- Cylchlythyr 203/2016 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion;
- Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol;
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Parchu eraill: canllawiau gwrth-fwllo;
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013;
- Cyfarwyddyd statudol i gynorthwyo atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru 202/2016, Ysgolion sy'n achosi pryder;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yr hawl i addysg).

Gellir dod o hyd i ddolenni at rai o ddogfennau Llywodraeth Cymru (LIC) y cyfeirir atynt trwy gydol yr arweiniad hwn trwy'r dolenni gwe fel y maent wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

1.3 Y Cyd-destun Cyfreithiol

- 1.3.1 O dan adran 7 Deddf Addysg 1996, mae rhieni'n gyfrifol am wneud yn siŵr fod eu plentyn o oedran ysgol gorfodol (5-16), yn derbyn addysg amser llawn ddigonol, sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a thueddfryd y plentyn, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) a allai fod gan y plentyn. Gall hyn fod yn bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg arall gan yr ALI; mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i rieni addysgu eu plentyn gartref.
- 1.3.2 Mae'r Ddeddf Addysg a rheoliadau cysylltiedig yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr ALI, i orfodi presenoldeb a sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio ag arferion cofrestru cadarn a'u bod yn hysbysu eu ALI priodol, mewn achosion o absenoldebau parhaus ac anawdurdodedig, heb gyfiawnhad rhesymol.

2.0 Nodau

2.1 Dyma nodau'r polisi:

- Rhoi'r canllawiau angenrheidiol i ysgolion/darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol i ddatblygu a gweithredu strategaeth presenoldeb ysgol gyfan a delio â materion yn ymwneud â phresenoldeb afreolaidd neu wael cyn cyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg;
 - Gwellu presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol;
 - Datblygu strategaethau ymyrraeth a chymorth effeithlon a chynnar ar gyfer y disgyblion sy'n fwy agored i niwed, yn enwedig plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), Plant sy'n Derbynn Gofal neu droseddwy'r ifanc;
 - Annog ysgolion/darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol i gydweithio ag ystod o bartneriaid i gefnogi a hyrwyddo lles a llesiant plant a phobl ifanc;
 - Sicrhau bod rôl yr ALI wrth ddelio ag achosion o golli'r ysgol yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol mewn ysgolion/darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol;
 - Darparu arweiniad mewn perthynas â defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig fel mesur i wellu presenoldeb a diogelu.
- 2.1.2 Bydd dogfen Pecyn Cymorth Hunanwerthuso Presenoldeb yn cefnogi'r agenda gwella ysgol gyfan, trwy amlygu meysydd i'w hystyried o ran mentrau i wellu presenoldeb.

3.0 Egwyddorion

- 3.1 Mae'r ALI a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y budd mwyaf posibl o'u haddysg, beth bynnag fo'u tarddiad ethnig, rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg credo, iaith, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir dangos bod modd ei gyfiawnhau, gan bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu mewn darpariaeth arall.
- 3.1.2 Mae'r ALI wedi ymrwymo hefyd i'r egwyddor sylfaenol, fod strategaethau ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth, yn hanfodol wrth sicrhau amddiffyniad a lles pob plentyn a pherson ifanc.

4.0 Proses a gweithredu

Mae ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu mewn darpariaeth arall yn rhagofynion i gyflawni gwelliant mewn cyrhaeddiad. Bydd Polisi ac Arweiniad yr ALI yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu polisi presenoldeb ysgol gyfan effeithiol.

5.0 Cysylltiadau â Strategaethau Eraill

- 5.1 Mae'r polisi Presenoldeb yn cysylltu'n agos â'r strategaethau/ polisiâu a'r amcanion allweddol canlynol:-
- Amcanion lles;
 - Cynllun lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
 - Agenda Ysgolion Iach;
 - Strategaeth Ymddygiad;
 - Cynllun Gwella Addysg;
 - Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
 - Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant;
 - Polisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA);
 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)
- 5.1.2 Mae Pobl Ifanc ag AAA ymhlith y grwpiau sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn NEET (Nid ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Mae'r ALI yn gweithredu fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant lleol gyda'i sefydliadau partner i leihau nifer y bobl NEET trwy gymorth targedig.

6.0 Partneriaeth

- 6.1 Mae angen cymorth ar y cyd ar Bolisi, sy'n mynd ati i gynnwys llywodraethwyr, staff, rhieni a gofalwyr, disgyblion a'r gymuned estynedig i ddatblygu a diwygio polisi sy'n benodol i ysgol.
- 6.1.2 Mae'r ALI yn cydweithio â Llywodraeth Cymru (LIC), ysgolion a darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol, asiantaethau allanol a'r sector gwirfoddol, i gynorthwyo â strategaethau i ddatrys problemau'n ymwneud â phresenoldeb gwael.

7.0 Gwrando ar Ddysgwyr

- 7.1 Dylai polisi presenoldeb ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb yr ysgol/y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a'r gymuned gyfan yw hyrwyddo presenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol.
- 7.1.2 Mae'r cynllun Lles yn cadarnhau bod pobl yn gwrando ar ddysgwyr, eu bod yn cael eu parchu ac yn cael cynnig ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
- 7.1.3 Pan fo'n briodol, dylid annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt a theimlo'n hyderus y bydd pobl yn gwrando ar eu barn a'i gwerthfawrogi.

8.0 Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

- 8.1 Mae'r ALI yn monitro presenoldeb trwy'r broses ganlynol:
- Meincnodi yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol;
 - Casglu a dadansoddi data presenoldeb yn drylwyr a rheolaidd i nodi meysydd a fyddai'n elwa ar gymorth penodol;
 - Y broses hunanwerthuso presenoldeb;
 - Arolygu cofrestri presenoldeb ysgolion yn rheolaidd;
 - Adroddiadau ESTYN;
 - Cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu ymlaen llaw rhwng staff cyswllt dynodedig a'r Swyddog Lles Addysg;
 - Cyfarfodydd â staff cyswllt o ddarpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol;
 - Cysylltiadau â chydweithwyr o feysydd eraill o fewn yr LEI, e.e., Swyddogion Cymorth Ymddygiad, Seicolegwyr Addysg, swyddogion ADY;
 - Cydweithio â'r Gwasanaeth Ieuencid;
 - Her trwy gyfarfodydd y Bwrdd Ymyrraeth Addysg ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder neu y nodwyd bod angen cymorth dwys arnynt;

- Cysylltiadau â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, er mwyn nodi ysgolion a fyddai'n elwa ar gynllun gweithredu unigol;
- Adolygu, gwerthuso a gosod targedau blynyddol gyda'r Pennaeth neu unigolyn proffesiynol arweiniol yr ysgol sy'n gyfrifol am ymddygiad a phresenoldeb a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

8.1.2 Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cael ei werthuso bob blwyddyn trwy'r cynllun gwella gwasanaeth.

9.0 Hysbysiadau Preifatrwydd

Bydd gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Swyddog Lles Addysg, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan ysgolion, disgyblion, rhieni/gofalwyr neu sefydliadau eraill, yn cael ei chofnodi a'i phrosesu gan yr ALL yn unol â'r rhwymedigaethau a osodir gan CBSC a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a Deddf Plant 1989.

Mae rhagor o wybodaeth am sut bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i defnyddio ar gael ar ffurf hysbysiad preifatrwydd llawn, a gellir ei weld yn www.caerffili.gov.uk

Atodiad 1 – Dolenni i Ddogfennau Llywodraeth Cymru

Gellir dod o hyd i holl ddogfennau Llywodraeth Cymru y cyfeirir atynt drwy gydol y ddogfen hon trwy'r dolenni isod:

- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan a strategaethau ar gyfer ysgolion i wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110308section3cy.pdf>

- Plant sy'n Colli Addysg

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/missingeducation/?lang=cy>

- Dogfen Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Rhif: 203/2016 Llywodraeth Cymru;

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?lang=cy>

- Adran 4 y Ddogfen Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Crynodeb ar bresenoldeb 4(i) Canllawiau ar Arferion a Chodau Cofrestru.
- Canllawiau LIC ar Godau Presenoldeb Ysgolion 2010, sy'n cynnwys gwybodaeth am y codau presenoldeb ysgol diwygiedig a'r newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â Chofrestru Disgyblion;

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/section4/?lang=cy>

Casglu Data Presenoldeb – Holi ac ateb

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/160405-attendance-collection-faq-cy.pdf>

Mae'r adran, yn ddefnyddiol, yn darparu nodiadau technegol hefyd i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt gasglu data presenoldeb bob blwyddyn.

- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012
- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Anawdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006.

<http://www.legislation.gov.uk>

- Canllawiau LIC ar hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-cy.pdf>

- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>

- Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru
- Protocol Cymru Gyfan ar gyfer plant sy'n colli addysg
- Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol
- Diogelu plant y gallent fod wedi cael eu masnachu

<http://www.sewsc.org.uk/>

Canllaw Arfer Da o ran Presenoldeb ar gyfer Ysgolion

Awdur	Linda Perkins
Ymgynghoreion	Uwch Dîm Rheoli
Pasiwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli (Dyddiad)	22 Mai 2018
Cyhoeddwyd (Dyddiad)	13 Gorffennaf 2018
Adolygiad Nesaf (Dyddiad)	Gorffennaf 2020



A greener place
Man gwyrddach



Cynnwys

1.0 Cyflwyniad	3
2.0 Cynllunio polisi effeithiol ar bresenoldeb ysgol	3
3.0 Rheoli Presenoldeb – arfer effeithiol	4
4.0 Ymateb i achosion o golli'r ysgol	6
5.0 Hysbysiadau Preifatrwydd	8
Atodiad 1 – Hunanwerthuso	9
Atodiad 2 – Cynllun Cadw'n Ddiogel rhag Triwantiaeth.....	19
Atodiad 3 – Ffurflen Gyfeirio'r Gwasanaeth Lles Addysg	20
Ffigur 1 – Ymateb i achosion o golli'r ysgol	7

1.0 Cyflwyniad

Erbyn hyn, ystyrir bod presenoldeb yn mesur ansawdd yr addysg a gynigir gan ysgol.

Nid oes targed cenedlaethol ar gyfer presenoldeb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru (LIC) a'r Awdurdod Lleol (ALI) yn disgwyl gweld gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rhoddir targedau'r ALI isod.

	Cynradd	Uwchradd
2016/17	94.6%	93.3%
2017/18	95.1%	94.2%
2018/19	95.2%	94.3%
2019/20	95.3%	94.4%

Mae'r ddogfen hon yn ceisio amlinellu canllawiau polisi ac arfer i gynorthwyo â chyflawni dull ysgol gyfan o hyrwyddo presenoldeb rheolaidd, darparu enghreifftiau o strategaethau y gellir eu defnyddio i wella presenoldeb ysgol a rheoli diffyg prydlondeb a dylid ei darllen ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan sy'n cynnwys strategaethau i ysgolion wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb;
- Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, canllawiau Llywodraeth Cymru, rhif: 203/2016; (Adran 4 (1); Canllawiau ar Arferion a Chodau Cofrestru);
- Canllawiau LIC ar Godau Presenoldeb Ysgolion 2010;
- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012;
- Y Cod Ymddygiad Lleol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Mae angen i bob lleoliad dysgu gael polisi ar gyfer ei amgylchiadau ei hun, a ddylai nodi sut maent yn hyrwyddo presenoldeb ac amlinellu'r strategaethau a fabwysiadwyd i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael, yn ogystal â hyrwyddo safonau ymddygiad uchel, er mwyn atal gwaharddiadau.

2.0 Cynllunio polisi effeithiol ar bresenoldeb ysgol

Mae polisi presenoldeb yn un sy'n gofyn am ymroddiad gan bob un o'r staff a gyflogir yn yr ysgol/y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a bydd ond yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus pan gytunir mai cyfrifoldeb y corff llywodraethol, staff yr ysgol gyfan, rhieni, gofawyr, disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol ydyw.

2.1 Dylai'r Polisi:

- Roi blaenoriaeth uchel i bresenoldeb a phrydlondeb;
- Sicrhau cydymffurfio â'r holl ofynion statudol;
- Sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei chyfleu yn rheolaidd i rieni, gofalmwyr a disgyblion;
- Cynnwys gweithdrefnau ar gyfer dadansoddi data presenoldeb yn drylwyr;
- Cynnwys gweithdrefnau clir i nodi a dilyn trywydd yr holl absenoldebau, diffyg prydlondeb a thriwantiaeth ar ôl cofrestru;
- Cynnwys crynodeb o strategaethau ymyrraeth effeithiol a chynnar ar gyfer disgyblion sy'n disgyn islaw targed presenoldeb ysgolion i osgoi absenoldebau rhag dod yn barhaus (mwy na 20%) a mynd i'r afael ag achosion o ddifffyg prydlondeb parhaus a chynlluniau ailintegreiddio;
- Bod yn wyladwyr o adegau allweddol yn ystod calendr y flwyddyn academaidd (e.e. trosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 2/3);
- Darparu ar gyfer hierarchaeth glir a diamwys o gosbau, gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig;
- Cynnwys gwybodaeth am system wobrwyo ar gyfer presenoldeb da a gwell;
- Darparu ar gyfer cysylltiadau effeithiol â'r Gwasanaeth Lles Addysg;
- Cael ei fonitro a'i adolygu bob blwyddyn.

Cyfeiriwch hefyd at y Polisi Presenoldeb Enghreifftiol y dylid ei ddefnyddio ar y cyd ag Arweiniad yr Awdurdod Lleol ar Bresenoldeb a dogfennau cymharol allweddol eraill.

3.0 Rheoli Presenoldeb – arfer effeithiol

- Cael strategaeth glir ar bresenoldeb;
- Arweinyddiaeth dda; amlygu uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am bresenoldeb;
- Bydd defnyddio hunanwerthuso (Atodiad 1) yn amlygu unrhyw feysydd sydd angen sylw er mwyn gwella presenoldeb;
- Cynnwys Llywodraethwyr; cyfrifoldeb y corff llywodraethol yw monitro presenoldeb cyffredinol;
- Defnydd effeithiol o SIMS, y system electronig ar gyfer cofrestru presenoldeb;
- Monitro data yn drylwyr; cynnwys system goleuadau traffig neu fodel monitro presenoldeb fel 'Callio', i adnabod ac olrhain disgyblion sydd â lefelau uchel ac absenoldebau, patrymau a thueddiadau parhaus a'r cysylltiad â chyrhaeddiad;
- Cael system ymateb diwrnod cyntaf ar waith ar gyfer absenoldebau yn y bore a'r prynhawn;
- Gweithredu dilynol prydlon mewn achosion o golli'r ysgol, a disgyblion yn y categori grwpiau sy'n agored i niwed yn benodol;

- Rhoi strategaethau ymyrraeth gynnar ar waith, er enghraifft cardiau adrodd, contractau a phanelau presenoldeb;
- Sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ailintegreiddio disgyblion sy'n absennol yn gyson neu yn y tymor hir, gan gynnwys disgyblion â phryderon meddygol sylweddol;
- Cael systemau cymorth priodol ar waith ar gyfer disgyblion sydd â lefel uchel o absenoldeb neu fathau eraill o achosion o golli'r ysgol neu faterion cysylltiedig;
- Gwneud defnydd effeithiol o'r cynllun cymell a gwobrwyo;
- Ystyried gosod targedau ar gyfer disgyblion, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn, ac ati, unigol, ar wahân i darged ysgol gyfan;
- Cyflwyno cwricwlwm amgen llwyddiannus yn yr ysgol a'r tu allan;
- Egluro i rieni a gofalwyr eu cyfrifoldebau a phwysigrwydd parhad dysgu, yn enwedig mewn perthynas â chaniatâd i fod yn absennol yn ystod y tymor;
- Hyrwyddo presenoldeb trwy gydol yr holl gyfnodau allweddol trwy ffyrdd amrywiol:- nosweithiau rhieni, hysbysfyrddau, posterï; cylchlythyrau / llawlyfr ysgol a chyfryngau cymdeithasol;
- Cymryd camau i greu diwylliant sy'n annog presenoldeb, mynd i'r afael ag achosion o bresenoldeb gwael yn yr ysgol, fel materion cwricwlwm, bwlio neu wahaniaethu o unrhyw fath;
- Ymdrechu i gadw disgyblion ar y safle yn ystod y dydd a rhoi cynlluniau cadw'n ddiogel/diogelu ar waith ar gyfer y rheiny y mae'n hysbys eu bod yn chwarae triwant yn rheolaidd. Dangosir enghraifft o gynllun addas ar gadw'n ddiogel yn Atodiad 2;
- Darparu ar gyfer cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd rhwng staff ysgol/darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol perthnasol a'r Swyddog Lles Addysg neu unigolyn cyswllt y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol;
- Defnyddio ac ystyried canllawiau'r ALI a LIC ar bresenoldeb ysgol a'r cosbau amrywiol sydd ar gael, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ac erlyn.

3.1 Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd/Ymgysylltu â Theuluoedd/ Swyddogion Presenoldeb a Lles

Gall defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion neu ganfyddiad clwstwr i ddatblygu rolau penodol fel Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd, Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd neu Swyddogion Presenoldeb a Lles, gael effaith fesuradwy ar bresenoldeb a deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Gall ysgolion sydd wedi datblygu'r rolau hyn ddangos bod nodi a darparu cymorth priodol i ddisgyblion a'u teuluoedd, yn enwedig lle mae amrywiaeth o ffactorau yn rhwystro disgyblion rhag mynychu'r ysgol, wedi gwella presenoldeb a gwella profiadau addysgol i helpu disgyblion i gyflawni eu llawn potensial.


3.2 I hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a phresenoldeb rheolaidd, bydd yr ALI, mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol:

- Yn cynorthwyo ysgolion trwy'r broses hunanwerthuso presenoldeb, a fydd yn gwerthuso gweithdrefnau o amgylch polisi a blaenoriaethau ac yn cynghori/ cefnogi datblygu strategaethau i wella presenoldeb;
- Yn dadansoddi data presenoldeb yn drylwyr i gynorthwyo a galluogi ysgolion i flaenoriaethu a thargedu cymorth yn briodol, yn benodol ar gyfer disgyblion sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed;
- Yn ail-weddu cymorth y Gwasanaeth Lles Addysg yn briodol i ysgolion/ darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol;
- Yn gweithio'n agos ag asiantaethau partner ac adrannau eraill yn adran addysg yr ALI er mwyn mynd i'r afael â materion ymddygiad a phresenoldeb, fel rhan o'r broses fonitro ac adolygu;
- Yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) er mwyn adnabod ysgolion a fyddai'n elwa ar gynlluniau gweithredu unigol a chymorth â gosod targedau presenoldeb trylwyr a heriol ar gyfer ysgolion;
- Yn hyrwyddo'r defnydd o'r protocol symudiadau rheoledig ar gyfer disgyblion sy'n anodd eu lleoli, er mwyn i'r holl blant a phobl ifanc allu cael addysg briodol;
- Yn cysylltu achosion priodol swyddogion cymorth y plant sy'n derbyn gofal;
- Ar y cyd â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), yn defnyddio protocolau Menter Triwantiaeth sydd ar waith ac yn cynnal gweithrediadau Triwantiaeth rheolaidd ar draws y Fwrdeistref.

4.0 Ymateb i achosion o golli'r ysgol

Dylai'r ysgol/y darparwr addysg heblaw yn yr ysgol wneud pob ymdrech i ddatrys mater presenoldeb cyn cyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg. Rhoddir gweithdrefnau ar gyfer ymateb i achosion o golli'r ysgol yn Ffigur 1.

Ffigur 1 – Ymateb i achosion o golli'r ysgol



Dylid gwneud cyfeiriadau gan ddefnyddio Ffurflen Gyfeirio briodol y Gwasanaeth Lles Addysg (Atodiad 3):-

- Pan fydd strategaethau ymyrraeth gynnar wedi methu;
- Pan fydd patrwm o bresenoldeb afreolaidd wedi datblygu;
- Pan fydd absenoldebau yn barhaus (mae trothwy CBSC islaw'r gyfradd bresenoldeb, sef 85%);
- Pan fydd patrwm o driwantiaeth gyson ar ôl cofrestru, er gwaethaf ymdrechion i'w atal;
- Pan fydd patrwm o golli'r ysgol yn gyson (ar ôl cau cofrestr yr ysgol) wedi datblygu;
- Pan fydd rhieni neu ofalwyr yn tynnu disgybl o'r ysgol ar ôl mynegi bwriad i roi addysg ddewisol gartref, ond nid ydynt wedi dadgofrestru'r disgybl yn ffurfiol trwy hysbysu'r ALI neu'r ysgol o'u bwriadau;
- Pan fydd rhieni neu ofalwyr sydd wedi symud allan o'r ardal ac nid yw cais am gofnodion y disgybl wedi cael eu derbyn gan ysgol yn yr ardal newydd. (Cyfeiriwch at ganllawiau Llywodraeth Cymru hefyd, i helpu atal plant rhag colli addysg).

4.1 Ymateb i achosion o golli'r ysgol – grwpiau sy'n agored i niwed

Dylid rhoi sylw arbennig i blant sy'n dod o dan y categori grwpiau sy'n agored i niwed, lle mae potensial ar gyfer masnachu, camddefnyddio rhywiol a phriodas dan orfod.

Dylai gweithdrefnau galw diwrnod cyntaf flaenoriaethu plant a phobl ifanc sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant, neu sy'n blant sy'n derbyn gofal.

Dylai disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol ac y tybir eu bod ar goll, neu sy'n methu dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod i ddiwedd y cyfnod o ganiatâd estynedig awdurdodedig i fod yn absennol, yn enwedig os ydynt wedi bod ar wyliau i wlad eni'r teulu, bob amser gael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg gan ddefnyddio'r ffurflen briodol (Atodiad 3).

D.S.: Os bydd materion lles penodol ac adnabyddadwy, sy'n atal unrhyw ddisgybl rhag cael addysg, neu bryderon penodol ynghylch amddiffyn plant, dylid cyfeirio'r rhain yn uniongyrchol at unigolyn dynodedig yr ysgol ar gyfer Amddiffyn Plant a gwneud cyfeiriad at Wasanaethau Plant ar y ffurflen gyfeirio amlasiantaethol berthnasol (MARF). Gellir dod o hyd i ffurflen a chofnod o asesiad y cyfeirydd a ddylai gyd-fynd â'r cyfeiriad ar wefan Y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant, trwy'r ddolen isod.

<http://www.sewsc.org.uk/>

<http://www.sewsc.org.uk/professionals/reporting-concerns/>

Gellir dod o hyd i'r Fframwaith ar gyfer diogelu, canllawiau ar rolau a chyfrifoldebau ac ymateb i bryderon ynghylch diogelu, yn nogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru, *Cadw dysgwyr yn ddiogel*.

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>

5.0 Hysbysiadau Preifatrwydd

Bydd gwybodaeth a gafwyd gan y Gwasanaeth Lles Addysg, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan ysgolion, disgyblion, rhieni/gofalwyr neu sefydliadau eraill, yn cael ei chofnodi a'i phrosesu gan yr ALI yn unol â'r rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar CBSC a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a Deddf Plant 1989.

Mae rhagor o wybodaeth am sut bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i defnyddio ar gael ar ffurf hysbysiad preifatrwydd llawn a gellir dod o hyd iddo yn www.caerffili.gov.uk

Atodiad 1 – Hunanwerthuso



Hunanwerthuso Presenoldeb

Ysgol:		Dyddiad:		
Ymgynghorydd Her:				
Presenoldeb	2014/15	2015/16	2016/17	
Presenoldeb				
Chwartel:				
% PYDd:				
Grŵp meincnod:				
	2016/17	2017/18	2018/19	
Targedau:				
Pe bai Estyn yn ymweld â'r ysgol heddiw, pa farn fyddent yn ei rhoi ar eich presenoldeb?	Rhagorol Perfformiad ac arfer gref iawn a chynaledig	Da Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwella mân agweddau	Digonol: angen gwelliant Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig	Anfoddhaol: Angen gwelliant brys Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Polisi	Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen		Gan bwy a phryd	Cynnydd
A yw'r Polisi Presenoldeb yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n cynnwys targedau presenoldeb ac a yw wedi'i gadarnhau?	Y/N			
A yw'r Polisi Presenoldeb yn cael ei gymhwyso'n gyson ar lefel clwstwr?	Y/N			
A yw presenoldeb yn cael ei adlewyrchu mewn polisiau eraill, e.e. Polisi Diogelu?	Y/N			
A yw'r holl bolisiau ar gael i lywodraethwyr, rhieni a gofalwyr?	Y/N			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Sut mae data yn llywio camau gweithredu strategol ar gyfer cynllunio gwelliant ysgolion?				
Pa strategaethau/ mentrau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gwella presenoldeb a phrydlondeb ac a yw'r rhain yn cael eu hymgorffori ar draws yr ysgol?	Y/N			
Pa brosesau sydd ar waith ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yr holl ddysgwyr?				
A oes cydbwysedd o gymorth a her o ran presenoldeb a phrydlondeb?	Oes / Nac oes			
Dylid ymgorffori pwysigrwydd presenoldeb yn niwylliant yr ysgol. A yw'r holl ddisgyblion yn cael eu mentora gan holl aelodau'r ysgol, gan gynnwys tiwtoriaid pwnc, yn dilyn absenoldeb?	Y/N			
A yw pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'r canlynol: • Eu presenoldeb a/neu'u targed eu hunain?	Y/N			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Targed yr ysgol ar gyfer presenoldeb?				
A yw presenoldeb yn rhan o gyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso neu staff newydd yn yr ysgol?	Y/N			
Beth yw polisi presennol yr ysgol pan ddaw presenoldeb disgybl yn destun pryder?				
Pa brosesau sydd ar waith i ddilyn trywydd ac olrhain disgyblion i atal absenoldebau rhag dod yn barhaus? (islaw presenoldeb o 85%)				
A oes gennych chi feini prawf cytûn ar gyfer rhoi strategaethau ymyrraeth gynnar ar waith? E.e. - Trafodaeth ffurfiol gyda disgyblion; - Rhieni; - Contract presenoldeb/rhianta; - Cynllun Dysgu Unigol	Oes / Nac oes			
A yw cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr Arweinydd Presenoldeb ar gyfer yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles	Y/N			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Addysg?				
A ydych chi'n cadw cronoleg o ddigwyddiadau sy'n llywio cyfeiriadau ffurfiol at y Gwasanaeth Lles Addysg?	Y/N			
A yw'r polisi presenoldeb yn rhoi arweiniad clir ar awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor? - Beth yw'r meincnod ar gyfer awdurdodi? - Sut mae hyn wedi cael ei drosglwyddo i rieni? - Beth oedd nifer y diwrnodau a gollwyd y llynedd?	Y/N			
A yw'r polisi presenoldeb yn cyfeirio'n benodol at Blant sy'n Colli Addysg?	Y/N			
A yw'r ysgol wedi cyflwyno panelau presenoldeb? (mae'r rhain hefyd yn ffurfio rhan o fodel monitro presenoldeb 'Callio')	Y/N			
Beth yw strategaethau ail-integreiddio'r ysgol ar gyfer				

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus neu yn y tymor hir?				
A ydych chi'n gwobrwyo presenoldeb da a gwell?	Y/N			
Disgrifiwch eich trefniadau pontio rhwng yr holl gyfnodau allweddol? - Pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu? - Pa strategaethau sydd ar waith ar gyfer achosion nodedig o ddisgyblion â phresenoldeb gwael? - Materion eraill?				

SIMS ac Arferion Cofrestru	Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen		Gan bwy a phryd	Cynnydd
A yw pob un o'r staff yn cymhwyso codau presenoldeb yn gyson ac yn gywir?	Y/N			
A yw'r rhesymau am absenoldebau'n cael eu cofnodi'n gywir yng nghyfleuster adrodd sylwadau SIMS?	Y/N			
A yw eich gweithdrefnau presennol yn sicrhau bod staff cyflenwi yn rhoi polisi eich ysgol ar gyfer rheoli presenoldeb ar waith?	Y/N			
A oes gan aelod wedi'i amlygu o'r uwch dîm rheoli gyfrifoldeb am herio rhieni a gofawyr ynghylch achosion o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr?	Oes / Nac oes			
A oes gan aelod wedi'i amlygu o'r uwch dîm rheoli gyfrifoldeb am bresenoldeb i osgoi absenoldebau rhag dod yn barhaus?	Oes / Nac Oes			
A yw'r ysgol yn hyrwyddo ymhlith rhieni bwysigrwydd presenoldeb fel rhan o'r cyfnod ymsefydlu yn y dosbarth meithrin?	Y/N			

Monitro a Gwerthuso	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Pwy yn yr ysgol sy'n arwain ar gyfer gwerthuso presenoldeb?				
A yw data presenoldeb ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd ar wahân?	Y/N			
Pa werthusiad penodol sy'n cael ei gynnal i nodi rhesymau allweddol dros absenoldebau?				
Pa ddyddiau'r wythnos, hanner tymor neu dymor sydd â'r presenoldeb isaf? Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y rhain?				
(Ysgolion uwchradd yn unig) Pa gosbau sydd ar waith ar gyfer triwantiaeth ar ôl cofrestru? Dylai ysgol ystyried cynllun cadw'n ddiogel penodol ar gyfer unigolion a nodwyd.				
A yw presenoldeb a'r effaith ar gyrhaeddiad yn cael eu dadansoddi a'u monitro'n benodol?	Y/N			

A oes gennych chi gymorth ymyrraeth ar gyfer disgyblion â phresenoldeb gwael o ran llythrennedd a rhifedd?	Oes / Nac oes			
Cyfathrebu	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Gwranddo ar Ddysgwyr: A ydych chi wedi cynnal arolwg am farn disgyblion ar bresenoldeb? Pa gamau a gymerwyd ar sail canlyniad hyn a beth fu'r effaith?	Y/N			
A ydych chi wedi ymgynghori â'r cyngor ysgol ar fentrau gwella presenoldeb a sut cânt eu cyfleu yn effeithiol i'w cyfoedion/dosbarthiadau?	Y/N			
Rhieni a Gofalwyr: A ydych chi wedi cynnal arolwg am farn rhieni a gofalwyr ar bresenoldeb? Pa gamau a gymerwyd ar sail canlyniad hyn a beth fu'r effaith?	Y/N			
Sut mae pwysigrwydd presenoldeb yn cael ei hyrwyddo?				

Sut mae arfer da yn cael ei rannu ag ysgolion eraill?			
A yw'r ysgol yn gallu nodi effaith hyfforddiant ar y canlynol: • Clerc; • Athrawon dosbarth; • Corff llywodraethol	Y/N		
Pa wybodaeth arall fyddai'r ysgol yn ei gweld yn ddefnyddiol?			

Atodiad 2 – Cynllun Cadw'n Ddiogel rhag Triwantiaeth

Enw'r Disgybl:

Dyddiad Geni:

Trosolwg:

Mae <ENW> yn chwarae triwant yn rheolaidd o wersi yn Ysgol <YSGOL>. Mae'r rhieni wedi cael gwybod am y sefyllfa ac wedi helpu cefnogi <YSGOL> i newid ymddygiad <ENW>. Mae'r ffaith fod <ENW> yn chwarae triwant yn rheolaidd bellach yn fater diogelu ac mae ar lefel o bryder sylweddol. Yn ystod y cyfnod pan nad yw mewn gwersi, gallai fod mewn perygl o niwed difrifol iddo/iddi hun neu ddisgyblion/pobl eraill.

Mae triwantiaeth reolaidd <ENW> wedi cael ei chategoreiddio fel 'pryder sylweddol ynghylch diogelu' o ganlyniad i'r rhesymau canlynol:

Ffactorau risg sylweddol	Ticiwch fel y bo'n briodol
Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol o fewn tir yr ysgol	
Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol yn y gymuned leol	
Achos Posibl o Gamddefnyddio Sylweddau	
Achos Hysbys o Gamddefnyddio Sylweddau (Uchel/Canol/Isel)	
Risg o Hunan-niweidio	
Yn gysylltiedig â chyfoedion amhriodol	
Ymddygiad Troseddu leuenctid	
Yn agored i sylw amhriodol	

Protocol Ysgol <YSGOL>: Mae gan Ysgol <YSGOL> brotocol safonol i staff roi gwybod i'n Prif Swyddfa fod disgybl ar goll os bydd yn absennol ar gyfer gwers. Os adroddir bod disgybl y tybir ei fod yn 'destun pryder sylweddol' yn absennol o wers, bydd yr ysgol yn ceisio hysbysu'r rhieni ar unwaith i roi gwybod iddynt fod eu plentyn ar goll. Gallai hyn arwain at alwad ffôn i gadarnhau bod y disgybl yn cyrraedd yn hwyr ond byddwn yn hysbysu'r rhiant o hyd yn y lle cyntaf o ganlyniad i bryder posibl am risg i'r disgybl.

Pan fo'n bosibl, a gyda chaniatâd, bydd rhif ffôn symudol personol y plentyn yn cael ei rannu â'r Pennaeth Blwyddyn/Dysgu, fel y gellir cysylltu ag ef yn uniongyrchol i gadarnhau ei fod yn ddiogel a'i annog i ddychwelyd i'r ysgol. Rhif ffôn symudol (enw'r disgybl) yw:

Os bydd y disgybl yn parhau i chwarae triwant a chynyddu'r pryder ynghylch diogelu, rhoddir ystyriaeth bellach i'w gyfeirio at y Gwasanaethau Plant a/neu'r Heddlu.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn gallu cysylltu â rhiant os bydd ei blentyn/phlentyn yn destun pryder sylweddol. Sicrhewch fod yr ysgol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt, gan gynnwys rhifau ffôn symudol neu linell dir.

Dylai pawb lofnodi isod i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth uchod.

Llofnod y Disgybl:

Llofnod y Pennaeth Dysgu:

Llofnod y Rhiant:

Swyddog Diogelu:



Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Gwasanaeth Lles Addysg
educationwelfare@caerphilly.gov.uk

Dyddiad Cyfeirio:

Enw'r Disgybl :		Ysgol :	
Dyddiad Geni :	Rhywedd :	Cof :	Blwyddyn :
UPN :	Cyflyrau Meddygol :		
Cyfeiriad :			
Rhiant/Gofalwr / Gwarcheidwad / Gofalwr:			
Rhif ffôn cyswllt			

Manylion am Feddyg/Meddygfa	Rhif ffôn

Categori Anghenion Arbennig :	Prydau Ysgol Am Ddim :

Cofrestr Amddiffyn Plant:	Plant sy'n Derbynn Gofal:

Brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol:

Rheswm dros Gyfeirio	Presenoldeb	Lles

Asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig		
Enw'r Asiantaeth	Enw'r Unigolyn Cyswllt	Rhif ffôn

Ymyrraeth yn yr ysgol:

Nodwch fanylion am yr holl ymyrraeth cyn cyfeirio, a/neu atodwch gronoleg o ddigwyddiadau ynghyd â thystysgrif presenoldeb gyfoes (ac adroddiad ar sylwadau os cafodd ei ddefnyddio).

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn anelu at ymateb o fewn 5 niwrnod o dderbyn cyfeiriad ac yn darparu adborth o fewn 10 diwrnod.

D.S.: Os bydd materion penodol ac adnabyddadwy o ran lles neu ddiogelu a allai fod yn atal unrhyw ddisgybl rhag cael addysg, dylid cyfeirio'r rhain yn uniongyrchol at unigolyn dynodedig yr ysgol ar gyfer diogelu a dylid gwneud cyfeiriad i Wasanaethau Plant ar y ffurflen gyfeirio amlasiantaethol (MARF) berthnasol.

Cyswllt cyfeiriwr/ysgol	
Llofnod	
Dynodi	
Dyddiad	

Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd gwybodaeth a dderbynnir gan y Gwasanaeth Lles Addysg, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan ysgolion, disgyblion, rhieni/gofalwyr neu sefydliadau eraill, yn cael ei chofnodi a'i phrosesu gan yr ALI yn unol â'r rhwymedigaethau cyfreithiol a osodwyd ar CBSC a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a Deddf Plant 1989.

Mae rhagor o wybodaeth am sut bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i defnyddio ar gael ar ffurf hysbysiad preifatrwydd llawn a gellir ei gweld yn www.caerffili.gov.uk

Polisi Presenoldeb Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion

Awdur	Linda Perkins
Ymgynghoreion	Uwch Dîm Rheoli
Pasiwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli (Dyddiad)	22 Mai 2018
Cyhoeddwyd (Dyddiad)	13 Gorffennaf 2018
Adolygiad Nesaf (Dyddiad)	Gorffennaf 2020

A greener place
Man gwyrddach



Cynnwys

1.0 Datganiad Cenhadaeth	3
2.0 Hyrwyddo presenoldeb.....	3
3.0 Caniatâd i fod yn absennol/gwyliau yn ystod y tymor	4
4.0 Teithiau estynedig dramor	4
5.0 Gweithdrefnau ysgolion.....	5
6.0 Y system gofrestru	5
7.0 Diffyg prydlondeb	6
8.0 Absenoldeb diwrnod cyntaf	7
9.0 Absenoldeb trydydd diwrnod	7
10.0 Nodiadau absenoldeb	8
11.0 Absenoldeb parhaus a rheolaidd.....	8
12.0 Absenoldeb parhaus	8
13.0 Absenoldeb sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu	9
14.0 Croeso'n ôl	9
15.0 Gwobrau presenoldeb	9
16.0 Categoriadau absenoldebau	9
17.0 Addysg Heblaw yn yr Ysgol.....	10
18.0 Cadw cofnodion.....	10
19.0 Archwilio cofrestri	11
20.0 Targedau presenoldeb	11
21.0 Cynllun Gweithredu	11
22.0 Deddfwriaeth a Chanllawiau.....	11
22.1. Cofrestri a threfniadau derbyn	12
22.2. Targedau presenoldeb.....	12
23.0 Dogfennau canllawiau'n ymwneud â phresenoldeb	12
Atodiad 1 – Ffurflen Cais am Ganiatâd i fod yn Absennol.....	13
Atodiad 2 – Pecyn Canllawiau Hunanwerthuso.....	15

1.0 Datganiad Cenhadaeth

Mae (enw'r ysgol) wedi ymrwymo i ddarparu addysg lawn ac effeithlon i'r holl ddisgyblion, ac mae'n croesawu cysyniad cyfle cyfartal i bawb.

Byddwn yn darparu amgylchedd lle mae pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u croesawu ac wedi ymrwymo i'r egwyddor sylfaenol fod ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol wrth sicrhau presenoldeb, amddiffyniad a lles yr holl blant a phobl ifanc.

Bydd yr ysgol yn dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a phrotocolau lleol mewn perthynas â materion lles penodol ac adnabyddadwy sy'n atal plentyn neu ddisgybl ifanc rhag cael addysg, neu ble ceir pryderon ynghylch diogelu.

Er mwyn i ddisgybl gyrraedd ei lawn botensial addysgol, mae lefel uchel o bresenoldeb ysgol yn hanfodol. Byddwn yn gweithio'n gyson tuag at nod o 100% o bresenoldeb ar gyfer pob disgybl. Bydd pob cyfle'n cael ei ddefnyddio i gyfleu i ddisgyblion a'u rhieni neu'u gofalwyr, bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a phrydlon.

Mae presenoldeb ysgol yn destun cyfraith a chanllawiau addysg ac ysgrifennwyd y polisi presenoldeb ysgolion hwn i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth hon a'r canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC).

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer diwrnod ysgol a fydd yn cael ei rannu'n ddwy sesiwn gydag egwyl ginio yn y canol a bydd ar gael am o leiaf 190 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

Bydd yr ysgol yn adolygu ei strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb bob blwyddyn i sicrhau ei bod yn cyflawni'r nodau a'r targedau a osodwyd ar ei chyfer fel y nodwyd gan y llywodraethwyr, yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA).

Bydd y polisi hwn yn cynnwys y gweithdrefnau y bydd yr ysgol yn eu defnyddio i weithio tuag at fodloni ei thargedau presenoldeb.

2.0 Hyrwyddo presenoldeb

Y sylfaen ar gyfer presenoldeb da yw partneriaeth gref rhwng yr ysgol, y rhieni neu'r gofalwyr a'r disgyblion.

Byddwn yn sicrhau bod ein disgyblion a'u rhieni neu'u gofalwyr, yn cael gwybod am bwysigrwydd presenoldeb da a sut bydd hyn o fudd iddyn nhw; byddwn yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ymyrryd yn gynnar i annog presenoldeb gwell dysgwyr unigol. Gallai enghreifftiau gynnwys model monitro presenoldeb 'Callio', cynlluniau/contractau cymorth disgyblion unigol a'r Cynllun Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Bydd gwybodaeth yr ysgol yn cynnwys manylion am y strategaethau penodol y byddwn yn eu defnyddio a'r modd y byddwn yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr a'n disgyblion o'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud i sicrhau bod pob un o'n disgyblion yn cyflawni presenoldeb da.

3.0 Caniatâd i fod yn absennol/gwyliau yn ystod y tymor

Ni fydd caniatâd i fod yn absennol yn ystod y tymor yn cael ei annog. Nid oes gan rieni a gofalwyr yr hawl awtomatig i dynnu eu plant o'r ysgol am wyliau blynyddol a byddant yn cael eu hatgoffa am yr effaith y gall absenoldeb ei chael ar gyflawniad posibl disgybl.

Rhaid i rieni a gofalwyr wneud cais ymlaen llaw am ganiatâd i'w plentyn fod yn absennol (Atodiad 1). Bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw gais am ganiatâd i fod yn absennol, gan ystyried ffactorau fel hyd a diben y gofyniad i fod yn absennol, pa adeg o'r flwyddyn y mae'r daith arfaethedig, effaith ar barhad y dysgu, amgylchiadau'r teulu a hanes presenoldeb y disgybl. Gallai'r ysgol ofyn am gael cyfarfod â rhieni/gofalwyr hefyd i drafod eu cais cyn gwneud penderfyniad.

Pan na fydd rhieni a gofalwyr yn cadw at benderfyniad yr ysgol, naill ai trwy gymryd gwyliau na chytunwyd iddo, yn cadw'r plentyn o'r ysgol neu ddarpariaeth amgen a drefnwyd gan yr ysgol neu'r ALI, yn hwy na'r cyfnod a gytunwyd, neu'n methu gwneud cais am ganiatâd, dylid trin yr absenoldeb fel un anawdurdodedig.

4.0 Teithiau estynedig dramor

Efallai y bydd y pennaeth ond yn cytuno i roi caniatâd i ddisgybl fod yn absennol am gyfnod estynedig am fwy na 10 diwrnod mewn amgylchiadau eithriadol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Rhiant yn gweithio dramor am gyfnod tymor canolig penodedig;
- Teulu sy'n dychwelyd o wlad eu geni;
- Rhiant yn dychwelyd o daith weithredol.

Wrth lunio barnau am absenoldeb estynedig ar gyfer disgyblion o deuluoedd ethnig lleiafrifol, bydd yr ysgol yn sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi cael ei rhoi, nid yn unig i'r Rheoliadau Statudol a chanllawiau LIC, ond hefyd i sefyllfa teuluoedd ethnig lleiafrifol yn gyffredinol, a'r amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â phob achos unigol. Mae'n bwysig i ni allu dangos dealltwriaeth o safbwynt y rhieni, er na fyddwn efallai'n gallu cydymffurfio â chais am absenoldeb.

5.0 Gweithdrefnau ysgolion

Bydd absenoldeb unrhyw ddisgybl sy'n absennol o'r ysgol yn ystod cyfnod cofrestru'r bore neu'r prynhawn yn cael ei gofnodi fel absenoldeb awdurdodedig, absenoldeb anawdurdodedig neu fel gweithgarwch addysgol cymeradwy (darpariaeth a drefnwyd gan yr ALI neu ddarpariaeth neu ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr ysgol). Dim ond y pennaeth neu aelod o staff sy'n gweithredu ar eu rhan sy'n gallu awdurdodi absenoldeb.

Os nad oes rheswm hysbys dros yr absenoldeb adeg cofrestru, yna bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi yn y lle cyntaf fel absenoldeb heb esboniad (cod N) a bydd yr ysgol yn dilyn trywydd yr absenoldeb yn brydlon, fel rhan o'i strategaethau ymyrraeth gynnar a diogelu.

Bydd y codau ar gyfer unrhyw absenoldebau yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan LIC, fel y gwelir yn y tabl isod.

6.0 Y system gofrestru

Bydd y codau cenedlaethol canlynol yn cael eu defnyddio i gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb.

COD	DISGRIFIAD	YSTYR
I	Presennol (bore)	Presennol
l	Presennol (prynhawn)	Presennol
B	Yn cael addysg oddi ar y safle (NID cofrestriad deuol)	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
C	Amgylchiadau Awdurdodedig Eraill (nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan god/disgrifiad arall priodol)	Absenoldeb awdurdodedig
D	Cofrestriad deuol (h.y. disgybl sy'n mynychu sefydliad arall)	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
E	Disgybl wedi'i wahardd (nid oes unrhyw ddarpariaeth amgen wedi'i threfnu)	Absenoldeb awdurdodedig
F	Gwyliau teuluol estynedig (cytunwyd)	Absenoldeb awdurdodedig
G	Gwyliau teuluol (HEB eu cytuno <u>neu</u> ddiwrnodau yn fwy na'r hyn a gytunwyd)	Absenoldeb anawdurdodedig
H	Gwyliau teuluol (cytunwyd)	Absenoldeb awdurdodedig

COD	DISGRIFIAD	YSTYR
I	Salwch (NID apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol, ac ati)	Absenoldeb awdurdodedig
J	Cyfweliad	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
L	Hwyr (cyn i'r cofrestri gau)	Presennol
M	Apwyntiadau meddygol/deintyddol	Absenoldeb awdurdodedig
N	Nid oes rheswm wedi'i roi am yr absenoldeb eto	Absenoldeb anawdurdodedig
O	Absenoldeb anawdurdodedig (ni chaiff ei gwmpasu gan unrhyw god/ddisgrifiad arall)	Absenoldeb anawdurdodedig
P	Gweithgarwch chwaraeon cymeradwy	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
R	Defod grefyddol	Absenoldeb awdurdodedig
S	Cyfnod o absenoldeb i astudio	Absenoldeb awdurdodedig
T	Absenoldeb teithiwr	Absenoldeb awdurdodedig
U	Hwyr (ar ôl i'r cofrestri gau)	Absenoldeb anawdurdodedig
V	Ymweliad neu daith addysgol	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
W	Profiad gwaith	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
X	Sesiynau heb eu hamserlennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol	Ni chânt eu cyfrif mewn presenoldebau posibl
Y	Cau gorfodol	Ni chânt eu cyfrif mewn presenoldebau posibl
Z	Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto	Ni chânt eu cyfrif mewn presenoldebau posibl
#	Ysgol ar gau i ddisgyblion	Ni chânt eu cyfrif mewn presenoldebau posibl

7.0 Diffyg prydlondeb

Bydd cofrestru'r bore yn digwydd ar ddechrau'r diwrnod ysgol amam. Bydd yr ysgol yn gosod yr amser y bydd y cofrestri'n parhau ar agor, gan ystyried canllawiau LIC. Bydd unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwn yn cael ei farcio ag absenoldeb anawdurdodedig (cod U), oni bai fod esboniad derbyniol; gallai rhai o'r enghreifftiau hyn fod fel a ganlyn: roedd oedi yn y cludiant a drefnwyd gan yr ALI neu'r ysgol neu drefniant fel rhan o becyn cymorth i ofalwyr ifanc neu ail-integreiddio/cynllunio amserlen ran-amser.

Mewn achosion lle'r oedd yr absenoldeb adeg cofrestru am fynychu apwyntiad meddygol **yn gynnar** yn y bore, er enghraifft, gallwn farcio bod y disgybl yn cyrraedd

yn hwyr (L), ar yr amod fod tystiolaeth ysgrifenedig o amser yr apwyntiad yn cael ei darparu a'r amser y mae'r disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn cael ei gofnodi. Ar gyfer absenoldebau meddygol y tu allan i'r amserlen hon, rhaid cofnodi'r absenoldeb meddygol priodol (cod M).

Bydd cod cyrraedd yn hwyr (L) yn cael ei gofnodi ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd ar ôl dechrau'r ysgol ond cyn diwedd y cyfnod cofrestru.

Bydd cofrestru'r prynhawn am.....pm a bydd unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwn yn cael ei farcio'n absennol, oni bai fod esboniad derbyniol; bydd cod hwyr yn cael ei gofnodi ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd ar ôl dechrau cyfnod cofrestru'r prynhawn.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hatgoffa y gallai'r ALI gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am ddiffyg prydlondeb parhaus ar ôl i'r gofrestr gau, yn unol â'r Cod Ymddygiad Lleol, os yw'n fwy na 10 sesiwn. Gellir cael mwy o wybodaeth am y cynllun Hysbysiad Cosb Benodedig yn www.caerffili.gov.uk

8.0 Absenoldeb diwrnod cyntaf

Atgoffir rhieni a gofalwyr mai eu cyfrifoldeb nhw yw rhoi gwybod i'r ysgol ar unrhyw ddiwrnod na all eu plentyn fynychu. Fodd bynnag, at ddibenion diogelu, byddwn yn ymdrechu i gadarnhau'r rheswm penodol am golli'r ysgol cyn gynted ag y bo modd ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb, ar ôl sesiwn gofrestru'r bore a'r prynhawn. Gallai hyn gynnwys galwad ffôn neu wasanaeth negeseuon testun. Ar ôl derbyn y wybodaeth benodol, bydd y gofrestr yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r cod absenoldeb priodol fel yn Ffigur 1 uchod.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i blant yr ystyrir eu bod yn hynod agored i niwed, e.e. y rheiny sy'n hysbys i wasanaethau amddiffyn/diogelu plant neu blant sy'n derbyn gofal.

Bydd tîm gwasanaethau plant yr ardal yn cael ei hysbysu am absenoldeb heb esboniad am fwy na deuddydd gan ddisgybl ar y gofrestr amddiffyn plant, neu ddiwrnod ar ôl diwedd yr wythnos.

9.0 Absenoldeb trydydd diwrnod

Ar drydydd diwrnod yr absenoldeb ac os na fydd yr ysgol wedi derbyn esboniad digonol, bydd llythyr yn cael ei anfon at y rhiant neu'r gofalwr yn gofyn am y wybodaeth hon. Bydd yr absenoldebau'n parhau i fod yn rhai anawdurdodedig, hyd nes y derbynnir esboniad digonol. Bydd yn defnyddio'r holl rifau a ddelir fel manylion cyswllt ychwanegol ar gyfer pob disgybl. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r ysgol gyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg. Fodd bynnag, os bydd unrhyw bryderon ynghylch lles neu ddiogelu, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Plant.

10.0 Nodiadau absenoldeb

Bydd nodiadau a dderbynnir gan rieni yn esbonio absenoldeb yn cael eu cadw am flwyddyn academaidd. Os bydd pryderon presenoldeb am y disgybl, gellir bod angen ymchwilio i hynny ymhellach, wedyn bydd y nodiadau'n cael eu cadw yn unol â'r amserlen cadw addysg; dim ond y pennaeth neu gynrychiolydd y pennaeth sy'n gallu awdurdodi absenoldeb ac efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth fel llythyr gan feddyg teulu neu ymgynghorydd i gefnogi'r rhesymau a roddwyd dros absenoldeb.

11.0 Absenoldeb parhaus a rheolaidd

Yn yr ysgol, cyfrifoldeb yr athro dosbarth/tiwtor cofrestru neu'r swyddog presenoldeb yw bod yn ymwybodol o unrhyw bryderon am bresenoldeb sy'n dod i'r amlwg a'u dwyn i sylw'r pennaeth (neu'r unigolyn y mae wedi dirprwyo cyfrifoldeb am bresenoldeb iddo/iddi).

Mewn achosion lle bydd disgybl yn dechrau datblygu patrwm o absenoldebau, bydd ysgol yn ceisio datrys y broblem cyn gynted ag y bo modd i osgoi cyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg.

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall amrywiaeth o amgylchiadau personol a / neu gymhleth gael effaith negyddol ar bresenoldeb i rai disgyblion. Felly, byddwn yn anelu at weithio gyda'r disgybl, y teulu ac asiantaethau partner i helpu mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

Ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig o 10 sesiwn neu fwy mewn cyfnod treigl o 12 wythnos (mae dwy sesiwn mewn diwrnod, yn y bore a'r prynhawn) ac ar ôl cyflwyno llythyr rhybudd a chyfnod o fonitro, gall yr ysgol ofyn bod yr ALI yn cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig yn unol â'r Cod Ymddygiad Lleol.

12.0 Absenoldeb parhaus

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio absenoldeb parhaus fel disgyblion y mae lefel eu habsenoldeb yn fwy na 20% (presenoldeb yn 80%). Bydd disgyblion â materion presenoldeb sy'n dod i'r amlwg yn destun cynllun gweithredu i'w cynorthwyo i ddychwelyd at bresenoldeb llawn.

Gallai'r cynllun gweithredu fod fel rhan o fodel monitro presenoldeb 'Callio' a bydd yn cynnwys ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol sy'n gallu cynorthwyo presenoldeb y disgybl, a gallai gynnwys Swyddog Lles Addysg yr ysgol.

13.0 Absenoldeb sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu

Gallai disgybl fod yn absennol o'r ysgol oherwydd bwllo, sy'n gallu bod ar lawer o ffurfiau, a gall fod yn uniongyrchol (naill ai'n gorfforol neu'n llafar) neu'n anuniongyrchol, er enghraifft anwybyddu disgybl neu beidio â siarad ag ef. Gallai rhai mathau o'r bwllo hwn fod yn fwlio gwahaniaethol.

Mae yn erbyn y gyfraith i ysgol, corff llywodraethol neu'r ALI beidio â gweithredu pan fydd y math hwn o fwlio'n digwydd rhwng disgyblion, ac fel ysgol, mae gofyn i ni fonitro ac adrodd am unrhyw achosion gwahaniaethol bob tymor. Os bydd y rheswm dros absenoldeb disgybl yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r materion uchod, rhaid i ni gymryd camau i ddelio â'r sefyllfa.

14.0 Dychwelyd o absenoldeb

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ar gyfer yr holl ddisgyblion pan fyddant yn dychwelyd ar ôl bod yn absennol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y disgybl yn cael help i ddal i fyny â gwaith a gollwyd ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi cael ei roi i'r disgyblion eraill.

15.0 Gwobrau presenoldeb

Bydd yr ysgol yn defnyddio system wobrau amrywiol i wobrwyo disgyblion sydd â phresenoldeb da neu y mae eu presenoldeb yn gwell.

Rhaid i unrhyw system wobrwyo fod yn ystyrlon o'r plant. Mae angen ystyried amseriad gwobrau i sicrhau bod y plant yn gallu gwneud y cysylltiad rhwng eu presenoldeb ac unrhyw wobrau.

16.0 Categoriadau absenoldebau

Rhaid cofnodi'r holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr ond nad ydynt yn bresennol yn yr ysgol yn un o'r categorïau hyn:

- Absenoldeb Awdurdodedig
- Absenoldeb Anawdurdodedig
- Gweithgarwch Addysgol Cymeradwy

16.1 Absenoldeb anawdurdodedig

Mae hyn ar gyfer y disgyblion hynny lle nad oes rheswm wedi cael ei roi, neu y tybir eu bod yn absennol heb reswm dilys.

16.2 Absenoldeb awdurdodedig

Mae hyn ar gyfer y disgyblion hynny sydd i ffwrdd o'r ysgol am reswm y tybir ei fod yn ddilys; dim ond y pennaeth sy'n gallu awdurdodi'r absenoldeb. Ar wahân i ganiatâd i fod yn absennol ar gyfer gwyliau, bydd yr absenoldebau hyn yn cynnwys sesiynau i ffwrdd, er enghraifft lle mae'r pennaeth wedi cytuno â'r ALI i gyflwyno trwydded ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan mewn perfformiad adloniant neu ffilmio penodol.

16.3 Gweithgarwch addysgol cymeradwy

Mae hyn yn cwmpasu mathau o weithgarwch addysgol dan oruchwyliaeth a gynhelir oddi ar safle'r ysgol ond gyda chymeradwyaeth yr ysgol a/neu'r ALI.

Byddai hyn yn cynnwys:

- Lleoliadau profiad gwaith
- Teithiau maes ac ymweliadau addysgol
- Gweithgareddau chwaraeon
- Cyrsiau cyswllt neu addysg gymeradwy mewn lleoliad arall
- Addysg wedi'i threfnu gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

17.0 Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae'r ddarpariaeth lle disgwylir i'r disgybl fynychu yn gyfrifol am gofnodi presenoldeb y disgybl yn gywir a dilyn trywydd achosion o golli'r ysgol.

Mae trefniadau ar waith i amlygu disgyblion sy'n absennol o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, er mwyn i'r ysgol lle mae'r disgybl wedi'i gofrestru, allu myfyrio ar unrhyw absenoldebau a chymhwyso'r cod priodol.

18.0 Cadw cofnodion

Mae rheoliadau presenoldeb yn gosod amod y dylid cadw cofnodion presenoldeb am o leiaf dair blynedd; fodd bynnag, mae'n arfer da ymestyn y cyfnod hwn yn unol â'r amserlen cadw cofnod addysg.

19.0 Archwilio cofrestri

Bydd yr ALI yn archwilio cofrestri'n ffurfiol yn rheolaidd, i sicrhau bod cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth. Dylid nodi bod cofrestri'n ddogfennau cyfreithiol a'i bod yn drosedd peidio â chynnal cofnodion cywir.

20.0 Targedau presenoldeb

Bob blwyddyn, bydd y pennaeth a'r corff llywodraethol yn gosod targedau absenoldeb ac yn eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol erbyn 31 Rhagfyr fan bellaf yn ystod pob blwyddyn ysgol.

Bydd yr ysgol a'r corff llywodraethol yn defnyddio'r data presenoldeb sydd ar gael gan yr ALI a'r GCA wrth osod ei thargedau.

Dyma ein targedau ysgol:

2017/2018:

2018/2019:

2019/2020:

21.0 Cynllun Gweithredu

Bydd yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth fel y nodwyd trwy'r pecyn cymorth hunanwerthuso (Atodiad 2), er mwyn cwblhau cynllun gweithredu a fydd yn amlygu pa strategaethau y byddwn yn eu defnyddio, i gyflawni ein targedau presenoldeb.

22.0 Deddfwriaeth a Chanllawiau

Mae Deddf Addysg 1996, Rhan 1, yn datgan:

Dylai rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol achosi iddo dderbyn addysg amser llawn effeithlon sy'n addas:

- (a) I'w oedran, ei gallu a'i dueddfryd ac
- (b) I unrhyw anghenion arbennig a allai fod ganddo naill ai drwy fynd i'r ysgol neu'r ddarpariaeth arall yn rheolaidd.

At ddibenion addysgol, mae'r term 'rhiant' yn golygu rhieni naturiol ac mae'n cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am y plentyn o ddydd i ddydd.

Mae Adran 444 1, 1(a) a (ZA) yn cynnwys manylion ynglŷn â phan fydd trosedd yn cael ei chyflawni os na fydd plentyn yn mynychu ysgol neu ddarpariaeth amgen a drefnwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb Benodedig) (Cymru) 2013 yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer gweithredu'r cynllun Hysbysiad Cosb Benodedig.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

22.1. Cofrestri a threfniadau derbyn

- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006.

22.2. Targedau presenoldeb

- Rheoliadau Addysg (Targedau Perfformiad Ysgolion ac Absenoldebau Anawdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006.

23.0 Dogfennau canllawiau'n ymwneud â phresenoldeb

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan;
- Plant sy'n Colli Addysg Cymru Gyfan;
- Polisi a Chanllawiau ar Bresenoldeb, Awdurdod Lleol Caerffili;
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel;
- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan;
- Cod Ymddygiad Lleol sy'n ymwneud â'r Cynllun Hysbysiad Cosb Benodedig;
- Canllawiau Statudol i helpu atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg (CME);
- Dogfen canllawiau Llywodraeth Cymru 203/2016 Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion;
- Dogfen canllawiau Llywodraeth Cymru 215/2017: Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar godau presenoldeb (2010).

Gellir cael rhagor o ganllawiau ar bresenoldeb ysgol a chymorth i ddysgwyr, trwy fynd i: <http://gov.wales/topics/educationandskills/?lang=cy>

Atodiad 1 – Ffurflen Cais am Ganiatâd i Fod yn Absennol

Annwyl Riant / Ofalwr

Ni fydd caniatâd i fod yn absennol yn ystod y tymor yn cael ei annog. Nid oes gan rieni a gofalwyr yr hawl awtomatig i dynnu eu plant o'r ysgol am wyliau blynyddol a byddant yn cael eu hatgoffa am yr effaith y gall absenoldeb ei chael ar gyflawniad posibl disgybl.

Bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw gais am ganiatâd i fod yn absennol, gan ystyried ffactorau fel yr adeg o'r flwyddyn a phatrwm presenoldeb y disgybl.

Rhoddir gwybod i rieni a gofalwyr y gallai Hysbysiad Cosb Benodedig gael ei gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol pan fydd mwy na 5 diwrnod o absenoldeb anawdurdodedig mewn tymor. I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at God Ymddygiad Lleol yr Awdurdod Lleol.

Presenoldeb ar ddiwedd y flwyddyn	Diwrnodau a gollwyd o'r ysgol
100%	0
99.5%	1
97.4%	5
95%	10
90%	19
87%	24
85%	28
80%	38
75%	47
70%	57
60%	76
50%	95
40%	114

✂-----

CAIS AM ABSENOLDEB GWYLIAU

Enw'r disgybl:

Dosbarth:

Diwrnod cyntaf yr absenoldeb

--	--	--

Diwrnod olaf yr absenoldeb

--	--	--

Rheswm dros y caniatâd i fod yn absennol yn ystod y tymor:

Rhif ffôn cyswllt: _____

Llofnodwyd: _____ Dyddiad: _____

(Rhiant / Gofalwr)

At Ddefnydd yr Ysgol yn unig

Absenoldeb awdurdodedig IE ☐ NA ☐

Presenoldeb presennol (%):

Presenoldeb y flwyddyn flaenorol (%):

Llofnodwyd: _____

*Rheswm os
NAD yw wedi'i
awdurdodi:*

Atodiad 2 – Pecyn Cymorth Hunanwerthuso



Hunanwerthuso
Presenoldeb

Ysgol:		Dyddiad:		
Ymgynghorydd Her:				
Presenoldeb	2014/15	2015/16	2016/17	
Presenoldeb				
Chwartel:				
% PYDd:				
Grŵp meincnod:				
	2016/17	2017/18	2018/19	
Targedau:				
Pe bai Estyn yn ymweld â'r ysgol heddiw, pa farn fyddent yn ei rhoi ar eich presenoldeb?	Rhagorol Perfformiad ac arfer cryf iawn a chynaledig	Da Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwella mân agweddau	Digonol: angen gwelliant Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig	Anfoddhaol: Angen gwelliant brys Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Polisi	Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen		Gan bwy a phryd	Cynnydd
A yw'r Polisi Presenoldeb yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n cynnwys targedau presenoldeb ac a yw wedi'i gadarnhau?	Y/N			
A yw'r Polisi Presenoldeb yn cael ei gymhwyso'n gyson ar lefel clwstwr?	Y/N			
A yw presenoldeb yn cael ei adlewyrchu mewn polisiâu eraill, e.e. Polisi Diogelu?	Y/N			
A yw'r holl bolisiâu ar gael i lywodraethwyr, rhieni a gofalwyr?	Y/N			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Sut mae data yn llywio camau gweithredu strategol ar gyfer cynllunio gwelliant ysgolion?				
Pa strategaethau/ mentrau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gwella presenoldeb a phrydlondeb ac a yw'r rhain yn cael eu hymgorffori ar draws yr ysgol?	Y/N			
Pa brosesau sydd ar waith ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yr holl ddysgwyr?				
A oes cydbwysedd o gymorth a her o ran presenoldeb a phrydlondeb?	Oes / Nac oes			
Dylid ymgorffori pwysigrwydd presenoldeb yn niwylliant yr ysgol. A yw'r holl ddisgyblion yn cael eu mentora gan holl aelodau'r ysgol, gan gynnwys tiwtoriaid pwnc, yn dilyn absenoldeb?	Y/N			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
A yw pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'r canlynol: • Eu presenoldeb a/neu'u targed eu hunain? • Targed yr ysgol ar gyfer presenoldeb?	Y/N			
A yw presenoldeb yn rhan o gyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso neu staff newydd yn yr ysgol?	Y/N			
Beth yw polisi presennol yr ysgol pan ddaw presenoldeb disgybl yn destun pryder?				
Pa brosesau sydd ar waith i ddilyn trywydd ac olrhain disgyblion i atal absenoldebau rhag dod yn barhaus? (islaw presenoldeb o 85%)				
A oes gennych chi feini prawf cytûn ar gyfer rhoi strategaethau ymyrraeth gynnar ar waith? E.e. • Trafodaeth ffurfiol gyda disgyblion; • Rhieni; • Contract presenoldeb/rhianta; • Cynllun Dysgu Unigol	Oes / Nac oes			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
A yw cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr Arweinydd Presenoldeb ar gyfer yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg?	Y/N			
A ydych chi'n cadw cronoleg o ddigwyddiadau sy'n llywio cyfeiriadau ffurfiol at y Gwasanaeth Lles Addysg?	Y/N			
A yw'r polisi presenoldeb yn rhoi arweiniad clir ar awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor? - Beth yw'r meincnod ar gyfer awdurdodi? - Sut mae hyn wedi cael ei drosglwyddo i rieni? - Beth oedd nifer y diwrnodau a gollwyd y llynedd?	Y/N			
A yw'r polisi presenoldeb yn cyfeirio'n benodol at Blant sy'n Colli Addysg?	Y/N			
A yw'r ysgol wedi cyflwyno panelau presenoldeb? (mae'r rhain hefyd yn ffurfio rhan o fodel monitro presenoldeb 'Callio')	Y/N			

Cynllunio Strategol, Rheoli a Gwella Presenoldeb	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Beth yw strategaethau ail-integreiddio'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus neu yn y tymor hir?				
A ydych chi'n gwobrwyo presenoldeb da a gwell?	Y/N			
Disgrifiwch eich trefniadau pontio rhwng yr holl gyfnodau allweddol? - Pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu? - Pa strategaethau sydd ar waith ar gyfer achosion nodedig o ddisgyblion â phresenoldeb gwael? - Materion eraill?				

SIMS ac Arferion Cofrestru	Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen		Gan bwy a phryd	Cynnydd
A yw pob un o'r staff yn cymhwyso codau presenoldeb yn gyson ac yn gywir?	Y/N			
A yw'r rhesymau am absenoldebau'n cael eu cofnodi'n gywir yng nghyfleuster adrodd sylwadau SIMS?	Y/N			
A yw eich gweithdrefnau	Y/N			

presennol yn sicrhau bod staff cyflenwi yn rhoi polisi eich ysgol ar gyfer rheoli presenoldeb ar waith?				
A oes gan aelod wedi'i amlygu o'r uwch dîm rheoli gyfrifoldeb am herio rhieni a gofawyr ynghylch achosion o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr?	Oes / Nac oes			
A oes gan aelod wedi'i amlygu o'r uwch dîm rheoli gyfrifoldeb am bresenoldeb i osgoi absenoldebau rhag dod yn barhaus?	Oes / Nac Oes			
A yw'r ysgol yn hyrwyddo ymhlith rhieni bwysigrwydd presenoldeb fel rhan o'r cyfnod ymsefydlu yn y dosbarth meithrin?	Y/N			

Monitro a Gwerthuso	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd	Cynnydd
Pwy yn yr ysgol sy'n arwain ar gyfer gwerthuso presenoldeb?	Y/N			
A yw data presenoldeb ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd ar wahân?	Y/N			
Pa werthusiad penodol sy'n cael				

ei gynnal i nodi rhesymau allweddol dros absenoldebau?			
Pa ddyddiau'r wythnos, hanner tymor neu dymor sydd â'r presenoldeb isaf? Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y rhain?			
(Ysgolion uwchradd yn unig) Pa gosbau sydd ar waith ar gyfer triwantiaeth ar ôl cofrestru? Dylai ysgol ystyried cynllun cadw'n ddiogel penodol ar gyfer unigolion a nodwyd.			
A yw presenoldeb a'r effaith ar gyrhaeddiad yn cael eu dadansoddi a'u monitro'n benodol?	Y/N		
A oes gennych chi gymorth ymyrraeth ar gyfer disgyblion â phresenoldeb gwael o ran llythrennedd a rhifedd?	Oes / Nac oes		
Cyathrebu	Crynodeb ac Effaith		Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen, gan bwy a phryd
Gwranddo ar Ddysgwyr: A ydych chi wedi cynnal arolwg am farn disgyblion ar bresenoldeb?	Y/N		

Pa gamau a gymerwyd ar sail canlyniad hyn a beth fu'r effaith?				
A ydych chi wedi ymgynghori â'r cyngor ysgol ar fentrau gwella presenoldeb a sut cânt eu cyfleu yn effeithiol i'w cyfoedion/dosbarthiadau?	Y/N			
Rhieni a Gofalwyr: A ydych chi wedi cynnal arolwg am farn rhieni a gofalwyr ar bresenoldeb? Pa gamau a gymerwyd ar sail canlyniad hyn a beth fu'r effaith?	Y/N			
Sut mae pwysigrwydd presenoldeb yn cael ei hyrwyddo?				
Sut mae arfer da yn cael ei rannu ag ysgolion eraill?				
A yw'r ysgol yn gallu nodi effaith hyfforddiant ar y canlynol: • Clerc; • Athrawon dosbarth; • Corff llywodraethol	Y/N			
Pa wybodaeth arall fyddai'r ysgol yn ei gweld yn ddefnyddiol?				

